



Ministry of  
**JUSTICE**

# **Y Cynllun Iawndal Am Anafiadau Troseddol 2012**

*Cynllun a osodwyd gerbron y Senedd o dan adran 11(1) o Ddeddf  
Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995 a'i ddiwygio o dan adran 11(3)  
o'r Ddeddf honno.*

Hawlfraint y Goron 2012

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch I <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Lle yr ydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfreintiedig trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid perthnasol yr hawlfraint.

Dylai unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r ddogfen hon gael eu hanfon atom yn:

Victim and Criminal Proceedings Policy  
8<sup>th</sup> Floor  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
London  
SW1H 9AJ  
+44 (0) 20 3334 6573

Alternative format versions of this report are available from Bola Fabunmi [victimsconsultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:victimsconsultation@justice.gsi.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn [www.official-documents.gov.uk](http://www.official-documents.gov.uk)

ISBN: 9780108512117

Argraffwyd yn y DU gan The Stationery Office Limited ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 2524767 11/12 24827 19585

Argraffwyd ar bapur y mae o leiaf 75% ohono yn gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu.

## Y Cynllun Iawndal Am Anafiadau Troseddol a wnaethpwyd ar 13<sup>eg</sup> Tachwedd 2012

### TABL CYNNWYS

#### Paragraff Darpariaeth

1. Rhagymadrodd
2. Cychwyn
- 2A. Diwygiadau i'r Cynllun hwn

3. Dehongli

#### Cymhwysedd: anafiadau lle gellir gwneud dyfarniad

- 4-9. Anafiadau lle gellir gwneud dyfarniad

#### Cymhwysedd: preswyliaid ayyb

- 10-16. Gofyniad preswyl

#### Cymhwysedd: darpariaethau eraill

17. Anafiadau cyn 1 Awst 1964
18. Ceisiadau blaenorol
- 18A. Eithriadau mewn achosion penodol
- 19-21. Mantais i ymosodwr

#### Rhesymau am atal neu leihau dyfarniad

22. Methu dweud wrth yr heddlu
23. Methu cyd-weithredu i ddod ag ymsodwr o flaen llys
24. Methu cynorthwyo swyddog hawliadau
25. Ymddygiad
26. Collfarnau heb ddarfod
27. Cymeriad
28. Ymddygiad a chymeriad yr ymadawedig
29. Darpariaethau atodol mewn perthynas â threuliau arbennig

#### Mathau o daliadau

30. Mathau o daliadau
31. Uchafswm dyfarniad

#### Taliadau am anafiadau

- 32-33. Gweithredu'r tariff
34. Anaf i'r meddwl o ganlyniad i ymosodiad rhywiol
35. Creithio ar ôl llawfeddygaeth
36. Cyflymiad neu waethygiad mewn cyflwr presennol
37. Dau anaf neu fwy

### **Anafiadau na restrir yn y tariff**

- 38. Cyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol
- 39-40. Taliad am anaf
- 41. Anafiadau lle nad yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol

### **Taliadau am golli cyflog**

- 42-43. Amodau ar gyfer gwneud taliad am golli cyflog
- 44-46. Cyfnod y golled
- 47. Colled yn y gorffennol
- 48. Colled i'r dyfodol
- 49. Lluosyddion, ffactorau disgownt a disgwyliad oes

### **Taliadau am dreuliau arbennig**

- 50. Cymhwyster
- 51. Amgylchiadau lle y gwneir taliad
- 52. Mathau o dreuliau arbennig
- 53. Treuliau arbennig yn parhau adeg yr asesiad
- 54. Effaith yr hawl i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol
- 55. Effaith taliad yswiriant
- 56. Amcangyfrif o leihad am fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a thaliadau yswiriant

### **Taliadau mewn achosion angheuol**

- 57. Dioddefwr yn marw o ganlyniad i anaf troseddol
- 58. Dioddefwr yn marw o ganlyniad i rywbeth heblaw anaf troseddol
- 59. Diffiniad o berthynas cymwys
- 60. Uchafswm dyfarniad

### **Taliadau profedigaeth**

- 61. Perthnasau cymwys
- 62. Swm y taliad

### **Taliadau plant**

- 63. Perthnasau cymwys
- 64. Cyfnod y taliad
- 65. Swm y taliad
- 66. Amcangyfrif o'r cyfandaliad

### **Taliadau dibyniaeth**

- 67. Perthnasau cymwys
- 68-69. Cyfnod y taliad

70-74. Amcangyfrif o'r taliad dibyniaeth

### **Taliadau angladd**

75. Taliad i ystad yr ymadawedig

76. Swm y taliad

77. Taliad pellach

### **Effaith marwolaeth ar rai taliadau**

78-79. Effaith taliad i'r ymadawedig cyn ei farwolaeth ar daliad dibyniaeth neu daliad plant

80-84. Taliadau o ganlyniad i anaf troseddol lle mae'r dioddefwr yn marw o achos amherthnasol cyn gwneir dyfarniad iddo

### **Effaith taliadau eraill ar ddyfarniad**

85. lawndal

### **Ceisiadau**

86. Penderfyniad gan swyddog hawliadau

87. Amser terfyn

88. Darpariaethau atodol ynglŷn ag amserasu terfyn pan oedd yr ymgeisydd yn blentyn

88A. Darpariaethau ychwanegol ynglŷn â chyfyngiadau amser

89. Ymestyn yr amser terfyn

90. Pwerau'r swyddog hawliadau

91. Dyletswyddau ar yr ymgeisydd

92. Gwybodaeth i'w ddarparu gan ymgeisydd

93. Costau'r ymgeisydd - cyffredinol

94. Amgylchiadau lle telir y costau gan yr Awdurdod

95. Costau'r ymgeisydd mewn cysylltiad â thystiolaeth feddygol neu arall

96. Tynnu costau o ddyfarniad

97. Tynnu cais yn ôl gan ymgeisydd

### **Gohirio penderfynu cais**

98. Amgylchiadau lle gall swyddog hawliadau ohirio penderfyniad

### **Penderfynu a thaliad**

99. Cyhoeddi'r penderfyniad

100. Hysbysiad o dderbyn gan gynnwys amser terfyn

101. Amser terfyn ar gyfer ceisio adolygiad

102. Estyn amserau terfyn

103-104. Tynnu penderfyniad yn ei ôl gan swyddog hawliadau

- 105. Cyfandaliad
- 106. Trefniadau ar gyfer talu
- 107. Costau trefniadau o'r fath
- 108. Dyddiad hawl i ddyfarniad

### **Ail-ystyriaeth ac ad-daliad**

- 109. Ail-ystyriaeth
- 110. Ad-daliad
- 111-113. Trefniadaeth

### **Taliad pellach ar ail-agor cais**

- 114. Ail-agor cais
- 115. Amodau ar gyfer ail-agor
- 116. Amser terfyn

### **Adolygu**

- 117-118. Penderfyniadau sy'n agor ar gyfer eu hadolygu
- 119. Amser terfyn a gofynion ar gyfer cais am adolygiad
- 120. Estyniad yr amser terfyn
- 121-124. Trefniadaeth pan fo'n adolygu

### **Apeliadau**

- 125. Hawl i apelio
- 126-128. Trefniadaeth ar dderbyn yr hysbysiad o apêl
- 128-133. Pwerau'r Tribiwnlys
- 134. Apeliadau blinderus neu wamal

### **Gweithredu'r Cynllun**

- 135-140. Adroddiadau a chyfrifon blynyddol

### **Darpariaethau trosiannol**

- 141-144. Darpariaethau trosiannol

### **Atodiadau**

- A. Dehongli
- B. Trosedd Treisgar
- C. Mannau Perthnasol
- CH. Collfarnau Blaenorol
- D. Tariff Anafiadau
- DD. Tablau Lluosogwyr

## Y Cynllun lawndal am Anafiadau Troseddol 2012

1. Llundir y Cynllun hwn (Y Cynllun lawndal Am Anafiadau Troseddol 2012) gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 11(1) o Ddeddf lawndal am Anafiadau Troseddol 1995, wedi iddo gael ei gymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.
2. Daw'r Cynllun hwn i rym ar ba bynnag un yw'r hwyraf o 30 Medi 2012 neu'r diwrnod ar ôl y diwrnod o ddwy wythnos yn cychwyn gyda'r diwrnod y'i gwnaethpwyd. Penderfynir ar gais am iawndal a dderbyniwyd gan yr Awdurdod ar neu ar ôl y dyddiad y daw y Cynllun hwn i rym yn unol â'r Cynllun hwn. Bydd paragraffau 141 i 143 yn berthnasol yng nghyswllt ceisiadau a ddaeth i law cyn hynny. Bydd paragraff 146 yn berthnasol yng nghyswllt penderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar y dyddiad diwygio yn 2019 neu ar ôl y dyddiad hwnnw ynghylch ceisiadau a ddaeth i law ar 27 Tachwedd 2012 neu ar ôl hynny, neu ynghylch dyfarniadau a wnaed ynghylch ceisiadau o'r fath.

2A. (1) Mae'r Cynllun hwn yn ymgorffori diwygiadau a wnaed gan Offeryn Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (Diwygiad) 2019, a ddaeth i rym ar y dyddiad diwygio yn 2019 (gweler Atodiad A ar gyfer hyn).

(2) Roedd y diwygiadau hyn:

(a) yn hepgor paragraff 19;

(b) yn diwygio paragraffau 2, 18, 20, 87, 88, 89, 141 ac Atodiad A;

(c) yn ychwanegu'r paragraff hwn a pharagraffau 18A, 88A, 145 a 146.

3. Mae Atodiad A yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Cynllun hwn.

### **Cymhwysedd: anafiadau lle gellir gwneud dyfarniad**

4. Gall person fod yn gymwys am ddyfarniad o dan y Cynllun hwn os yw'n cael anaf troseddol a briodolir yn uniongyrchol iddo fod yn ddioddefwr uniongyrchol o drosedd treisgar a gyflawnwyd mewn man perthnasol. Eglurir trosedd treisgar yn Atodiad B.
5. (1) Gall person fod yn gymwys am ddyfarniad os yw'n cael anaf troseddol sy'n uniongyrchol wedi ei briodoli iddo gymryd risg eithriadol a chyfiawnadwy at y diben, mewn man perthnasol, o:
  - (a) ddal troseddwr neu troseddwr tybiedig;
  - (b) atal trosedd;

(c) atal neu wella canlyniadau trosedd; neu

(ch) roi cymorth i heddwas sy'n yn ymwneud ag un o'r dibenion a ddisgrifir ym mharagraffau (a) i (c).

(2) Ni ystyrir risg a gymerir am unrhyw ddiben a ddisgrifir yn is-baragraff (1) yn ystod gwaith person yn eithriadol os byddai disgwyl iddynt wneud hynny'n arferol fel rhan o'r gwaith hwnnw.

6. Gall person fod yn gymwys am ddyfarniad os yw'n cael anaf troseddol mewn man perthnasol sy'n uniongyrchol wedi ei briodoli o fod yn bresennol a bod yn dyst i ddigwyddiad, neu ymhle o ganlyniad syth digwyddiad, y dioddefodd anwylyn ganddo anaf troseddol o dan amgylchiadau sy'n disgyn oddi mewn i baragraff 4 neu 5. At y dibenion hyn, mae "anwylyn" yn berson yr oedd yr ymgeisydd:

(a) ar adeg y digwyddiad mewn perthynas glos o serch a chariad ag ef; ac

(b) os yw'r anwylyn yn fyw ar ddyddiad y cais, mae'n parhau mewn perthynas o'r fath.

7. Gellir gwneud dyfarniad yn unol â pharagraffau 57 i 84 lle mae person sydd yn cael anaf mewn amgylchiadau o dan baragraff 4 neu 5 ac yn marw.

8. Ym mharagraffau 4 i 6, y man perthnasol yw Prydain Fawr neu unrhyw fan arall a ddynodir yn Atodiad C o dan y cyfryw amgylchiadau a all eu disgrifio yn yr Atodiad hwnnw.

9. Gall person fod yn gymwys am ddyfarniad o dan y Cynllun hwn p'run ai a yw'r digwyddiad sy'n peri'r anaf troseddol y mae ei cais yn berthnasol wedi arwain at gollfarn ymosodwr mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig neu fan arall ai peidio.

### **Cymhwysedd: preswyliaid ayyb**

10. Mae person yn gymwys am ddyfarniad o dan y Cynllun hwn dim ond os:

(a) yr oedd y person hwnnw'n preswyllo'n arferol yn y Deyrnas Unedig ar ddyddiad y digwyddiad sy'n peri'r anaf troseddol;

(b) oedd un o amodau ym mharagraff 11 wedi ei fodloni ar ddyddiad y digwyddiad sy'n peri'r anaf troseddol; neu

(c) oedd un o amodau ym mharagraff 13 wedi ei fodloni ar ddyddiad ei gais o dan y Cynllun hwn.



11. Yr amodau a gyfeirwyd atynt ym mharagraff 10(b) yw bod y person:
- (a) yn ddinesydd Prydeinig;
  - (b) yn berthynas agos â dinesydd Prydeinig;
  - (c) yn ddinesydd aelod wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd neu Ardal Economaidd Ewrop;
  - (ch) yn berson a oedd â'r hawl i fod yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd bod yn aelod teuluol dinesydd aelod wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Economaidd Ewrop ;
  - (d) yn ddinesydd Gwladwriaeth sy'n ran o Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar lawndal i Ddiodeffwyr Troseddau Treisgar (CETS Rhif. 116,1983);
  - (dd) yn aelod o'r lluoedd arfog neu
  - (e) yn hebrwng perthynas agos o aelod o'r lluoedd arfog.
12. (1) At ddibenion paragraff 11(b) ac (e), ac is-baragraff (2) mae i "perthynas agos" ac "yn hebrwng perthynas agos os yw'r person sy'n byw gyda nhw fel rhan o'r un tŷ ac mae'n:
- (a) briod neu bartner sifil y dinesydd neu aelod o'r lluoedd arfog hwnnw;
  - (b) bartner (ac eithrio priod neu bartner sifil) y dinesydd neu aelod o'r lluoedd arfog hwnnw, wedi bod yn bartner iddo am gyfnod parhaus o ddwy flynedd yn syth cyn dyddiad y digwyddiad sy'n peri anaf;
  - (c) blentyn o dan 18 y dinesydd neu aelod o'r lluoedd arfog hwnnw, neu o'i briod/phriod, bartner/partner sifil neu bartner (fel y'i disgrifir ym mharagraff (b));neu
  - (ch) blentyn y dinesydd neu aelod o'r lluoedd arfog hwnnw, sy'n dibynnu'n ariannol neu'n orfforol ar y person hwnnw o ganlyniad i anabledd corfforol neu feddyliol.
- (2) At ddibenion paragraff paragraff 11(e), mae person yn berthynas agos sy'n hebrwng os oedd yn berthynas agos â'r aelod o'r lluoedd arfog yn ôl fel y digwydd, ac yn byw gydag ef tu allan i'r Deyrnas Unedig.
13. Yr amodau a gyfeirir atynt ym mharagraff 10(c) yw bod y person wedi:
- (a) ei gyfeirio at awdurdod priodol fel diodeddfwr posibl o fasnach pobl ; neu
  - (b) gwneud cais am loches o dan y Rheolau Mewnfudo a wnaethpwyd o dan adran 3(2) o'r Ddeddf Mewnfudo 1971.

14. Gall person sydd wedi gwneud cais o dan y Cynllun hwn ac sydd yn bodloni'r amod ym maragraff 13 ofyn am ohirio ei gais hyd nes gwneir penderfyniad terfynol ar gyfeiriad neu gais fel y cyfeiriwyd ato yn y paragraff hwnnw.
15. Ymhle mae person yn gymwys am ddyfarniad o dan y Cynllun hwn o dan baragraff 10 ond oherwydd bodlonir amod o dan baragraff 13 mewn perthynas ag ef, ni fydd y person hwnnw'n gymwys am ddyfarniad, oni bai, o ganlyniad i gyfeiriad neu gais a gyfeirwyd ato ym mharagraff 13, ei fod wedi:
  - (a) ei gydnabod yn defynol gan awdurdod priodol fel dioddedfwr masnach pobl; neu
  - (b) cael diogelwch, lloches neu amddifyniad hunangarol dros dro
16. Ym mharagraffau 13 i 15:
  - (a) mae person wedi ei gydnabod yn defynol gan awdurdod priodol fel dioddedfwr masnach pobl pan, ar ddiwedd ystyried y drefniadaeth gydnabod sydd ei angen o dan Erthygl 10 o Gonfensiwn Cyngor Ewrop yn erbyn Masnachu Pobl (CETS Rhif197, 2005), mae awdurdod priodol yn canfod bod y person yn ddiodefwr o'r fath;
  - (b) ystyr "awdurdod priodol" yw person sy'n awdurdod priodol at ddibenion y Confensiwn hwnnw; ac mae i
  - (c) "dioddefwr masnach pobl" yr un ystur ag o dan y Confensiwn hwnnw.

**Cymhwysedd: darpariaethau eraill**

17. Yn amodol i baragraffau 87 i 89 mae person yn gymwys am ddyfarniad o dan y Cynllun hwn dim ond mewn perthynas ag anaf a gafodd ar neu ar ôl 1 Awst 1964.
18. Yn amodol ar baragraff 18A, ni fydd dyfarniad yn cael ei roi i berson yng nghyswllt anaf troseddol lle bo'r person hwnnw eisoes wedi gwneud cais sy'n ymwneud â'r un anaf o dan y Cynllun hwn neu unrhyw Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol a nodir ym mharagraff 141, beth bynnag oedd y penderfyniad terfynol ynglŷn â'r cais hwnnw neu sut bynnag y daethpwyd â'r cais i ben yn y pen draw.
  - 18A. (1) Bydd person sydd wedi gwneud cais o dan y Cynllun hwn, o dan unrhyw Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol a nodir ym mharagraff 141, neu o dan gynllun anstatudol blaenorol, yn gallu gwneud cais newydd sy'n ymwneud â'r un anaf troseddol o dan y Cynllun hwn, os yw'n bodloni'r amodau yn is-baragraff (2) neu (3).
    - (2) Bydd yr amodau yn yr is-baragraff hwn yn cael eu bodloni:

- (a) os digwyddodd yr anaf ar 1 Awst 1964 neu ar ôl hynny, ond cyn 1 Hydref 1979 (“y cyfnod perthnasol”); ac
- (b) os cafodd dyfarniad ei atal yng nghyswllt yr anaf hwnnw ar y sail bod y ceisydd a’r ymosodwr yn byw gyda’i gilydd fel aelodau o’r un teulu ar adeg y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf hwnnw, p’un ai hwnnw oedd yr unig reswm dros atal y dyfarniad neu beidio.
- (3) Caiff yr amodau yn yr is-baragraff hwn eu bodloni:
- (a) os cafwyd yr anaf ar 1 Hydref 1979 neu ar ôl hynny ;
- (b) os oedd y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf hwnnw dros gyfnod (“cyfnod yr anaf”) a ddechreuodd yn ystod y cyfnod perthnasol a gorffen ar ôl y cyfnod hwnnw; ac
- (c) os cafodd y dyfarniad a wnaed yng nghyswllt yr anaf hwnnw ei leihau ar y sail bod y ceisydd a’r ymosodwr, ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod perthnasol a chyfnod yr anaf, yn byw gyda’i gilydd fel aelodau o’r un teulu, p’un ai hwnnw oedd yr unig reswm dros atal y dyfarniad neu beidio.
- (4) Lle bo ceisydd sy’n bodloni’r amodau yn is-baragraff (2) neu (3) yn gwneud cais newydd yn unol ag is-baragraff (1), dim ond ar gyfer unrhyw amser rhwng y cyfnod perthnasol a chyfnod yr anaf, a phan oedd y ceisydd a’r ymosodwr yn byw gyda’i gilydd fel rhan o’r un teulu, y bydd modd gwneud dyfarniad ar gyfer yr anaf dan sylw.

20. Ni fydd dyfarniad yn cael ei wneud yng nghyswllt anaf troseddol os nad oedd y ceisydd a’r ymosodwr yn oedolion oedd yn byw gyda’i gilydd fel rhan o’r un teulu ar adeg y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf, oni bai fod y ceisydd a’r ymosodwr ddim yn byw gyda’i gilydd mwyach a’u bod yn annhebygol o wneud hynny eto.

21. Ni wneir dyfarniad pe bai ymosodwr yn gallu elwa o’r dyfarniad.

### **Rhesymau am atal neu leihau dyfarniad**

22. Gellir atal dyfarniad o dan y Cynllun hwn oni bai bod y digwyddiad sy’n peri’r anaf troseddol methwyd dweud wrth yr heddlu cyn gynted â bod yn rhesymol ymarferol. Wrth benderfynu os atebir y gofyniad hwn, cymerir i ystyriaeth yn arbennig:

- a. oed a gallu'r ymgeisydd ar ddyddiad y digwyddiad; ac
  - b. a oedd effaith y digwyddiad gynmaint nad oedd yn rhesymol iddo adrodd amdano ynghynt.
23. Atelir dyfarniad oni bai bod yr ymgeisydd wedi cyd-weithredu cyn belled â bod yn rhesymol ymarferol i ddod â'r ymosodwr gerbron llys.
24. Gellir atal neu leihau dyfarniad lle mae'r ymgeisydd yn methu cymryd pob cam rhesymol i helpu'r swyddog hawliadau neu gorff neu berson arall mewn perthynas ag ystyriaeth o'i gais. Mae methiant o'r fath yn cynnwys methiant cyson i ymateb i ohebiaeth a anfonwyd at y cyfeiriad a roddwyd gan yr ymgeisydd.
25. Gellir atal neu leihau dyfarniad lle mae ymddygiad yr ymgeisydd cyn, yn ystod neu ar ôl y digwyddiad sy'n peri'r anaf troseddol yn ei gwneud hi'n amhriodol gwneud dyfarniad neu ddyfarniad llawn. At y dibenion hyn, ni chynwysir ymddygiad trwy feddw-dod alcohol neu gyffuriau cyn belled â bod yn y fath feddw-dod yn gwneud yr ymgeisydd yn gwy bregus o fod yn ddioddefwr trosedd o drais.
26. Mae Atodiad CH yn gosod allan yr amgylchiadau pan atelir neu leiheir dyfarniad o dan y Cynllun hwn gan y mae'r ymgeisydd a fyddai fel arall yn derbyn dyfarniad â chollfarnau heb ddarfod.
27. Gellir atal neu leihau dyfarniad oherwydd mae ymddygiad yr ymgeisydd, ac eithrio mewn perthynas â chollfarn heb ddarfod a gyfeirir ato ym mharagraff 3 neu 4 o Atodiad CH, yn ei gwneud yn amhriodol i wneud dyfarniad neu ddyfarniad llawn.
28. Yn ychwanegol i baragraffau 22 i 27, gall dyfarniad mewn perthynas ag anaf angheuol perthnasol ei atal neu ei leihau os:
- (a) yr oedd ymddygiad yr ymadawedig cyn, yn ystod neu ar ôl y digwyddiad a achosodd ei farwolaeth, i yn ei gwneud yn amhriodol i wneud dyfarniad neu ddyfarniad llawn. Ni chynwysir ymddygiad trwy feddw-dod alcohol neu gyffuriau cyn belled â bod yn y fath feddw-dod yn gwneud yr ymgeisydd yn gwy bregus o fod yn ddioddefwr trosedd o drais; neu
  - (b) am resymau eithriadol, mae cymeriad yr ymadawedig ar ddyddiad ei farwolaeth, p'run ai oherwydd ei gollfarnau heb ddarfod neu fel arall, yn ei gwneud yn amhriodol wneud dyfarniad neu ddyfarniad llawn.

29. Ni leiheir taliad ar gyfer person cymwys yn rhinwedd paragraph 52(e), (f) neu (ff) (rhai treuliau arbennig) o dan paragraffau 24 i 27 oni bai atelir yr holl ddyfarniad y mae'r person hwnnw yn gymwys fel arall amdano o dan y paragraffau hynny.

### **Mathau o daliadau**

30. Y mathau o daliadau a ellir eu gwneud o dan y Cynllun hwn yw:
- a. Taliadau am anafiadau (paragraffau 32 i 41);
  - b. Taliadau am golli cyflog (paragraffau 42 i 49);
  - c. Taliadau am dreuliau arbennig (paragraffau 50 i 56);
  - (ch) Taliadau profedigaeth (paragraffau 61 a 62);
  - d. Taliadau plant (paragraffau 63 i 66);
  - (dd) Taliadau dibyniaeth (paragraffau 67 i 74);
  - e. Taliadau angladd (paragraffau 75 i 77);
  - f. Rhai taliadau eraill mewn achosion angheuol (paragraffau 78 i 84)..
31. Yr uchafswm dyfarniad a ellir ei wneud o dan y Cynllun hwn i berson sy'n dioddef un neu fwy o anafiadau troseddol sy'n deillio'n uniongyrchol o ddigwyddiad, cyn unrhyw leihad o dan baragraffau 24 i 28, yw £500,000.

### **Taliadau am anafiadau**

32. Mae person yn gymwys am daliad am anafiadau o dan y Cynllun hwn os:
- a. disgrifir ei anaf yn y tariff yn Atodiad D; neu
  - b. mewn unrhyw achos sy'n disgyn oddi mewn i baragraff 36 (cyflymiad neu waethygiad mewn cyflwr presennol), disgrifir ei anaf yn y tariff hwnnw ac mae gwerth y cyflymiad neu waethygiad yn o leiaf £1,000.
33. Penderfynnir ar swm y taliad am anafiadau yn unol â'r tariff a pharagraffau 34 i 37. Dengys y tariff:
- (a) yn Rhan A, y swm taladwy mewn perthynas ag anafiadau corfforol a meddyliol;
  - (b) yn Rhan B, y swm taladwy mewn perthynas ag anafiadau angheuol, cam-drin rhywiol a chorfforol; a
  - (c) nodiadau perthnasol i bennu swm y taliad am anafiadau ar gyfer rhai anafiadau.

34. Ymhle mae person wedi cael anaf meddyliol o ganlyniad i ymosodiad rhywiol, bydd hawl ganddo am daliad am anafiadau am yr ymosodiad rhywiol neu'r anaf meddyliol p'run bynnag fyddai'n talu uchaf o dan y tariff.
35. Ymhle mae person yn gymwys am daliad am anafiadau mewn perthynas ag anaf perthnasol sydd angen llawdriniaeth, ni wneir taliad am anafiadau ar wahân mewn perthynas i greithio sy'n deillio o'r llawdriniaeth honno.
36. Ymhle mae anaf perthnasol yr ymgeisydd fel y'i disgrifir yn y tariff yn cynnwys cyflymiad neu waethgiad, bydd taliad am anafiadau:
- (a) yn cael ei dalu dim ond mewn perthynas o'r raddfa o gyflyniad neu waethgiad;
  - (b) yn cael ei amcangyfrif mewn perthynas i'r anafiadau perthnasol rheiny a ddisgrifir yn y tariff fel mae'r swyddog hawliadau yn eu hystyried yn briodol; ac
  - (c) yn cael eu lleihau i sero, oni bai bod y swm a amcangyfrifwyd o dan is-baragraff (b) yn £1,000 neu fwy.
37. (1) Ymhle mae cais yn berthnasol i fwy nag un anaf perthnasol, y byddai pob un ohonynt yn gymwys am daliad am anafiadau o dan baragraff 32, , swm y taliad am anafiadau y bydd yr ymgeisydd yn gymwys amdano fydd:
- (a) swm llawn y tariff am yr anaf troseddol sy'n rhoi'r taliad uchaf;
  - (b) 30 y cant o swm y tariff ar gyfer yr anaf troseddol gyda thaliad cyfartal neu ail uchaf; ac
  - (c) ymhle mae tri anaf troseddol neu fwy, 15 y cant o swm y tariff am yr anaf troseddol gyda thaliad cyfartal neu drydydd taliad uchaf.
- (2) Wrth amcangyfrif y taliad am anafiadau ar gyfer yr hyn allai'r ymgeisydd fod yn gymwys amdano, defnyddir is-baragraff (1) ar ôl paragraffau 34 i 36.

### **Anafiadau na restrir yn y tariff**

38. Ymhle, yn dilyn cais, mae swyddog hawliau'n ystyried bod disgrifiad o anaf nad oes darpariaeth amdano yn Rhan A o'r tariff yn gyfwerth o ran ddifrifoldeb ag anaf a ddisgrifir yn y Rhan honno, rhaid i'r swyddog hawliadau drafod y mater â'r Tribiwnlys, Os, wedi iddo wneud hynny, mae'r swyddog yn ystyried bod i'r anaf y raddfa hynny o ddifrifoldeb, rhaid i'r swyddog hawliadau gyfeirio'r mater at yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn ei ystyried ar gyfer ei gynnwys yn y tariff, a phan yn gwneud hynny, gwneud argymhelliad am swm y tariff am yr anaf.

39. Ymhle cyfeirir anaf at yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 38, gellir gwneud taliad am yr anaf o'r swm tariff a argymhellwyd mewn perthynas â'r anaf, drwy ddefnyddio darpariaethau eraill y Cynllun hwn os yw'n anaf troseddo..
40. Yn amodol i baragraff 110, ni fydd unrhyw ran o dalaiad am anaf a wneir o dan baragraff 39 gan yr ymgeisydd os nad yw'r anaf wedyn yn cael ei gynnwys yn y tariff neu, os cynhwysir yr anaf ar lefel is na'r hyn a argymhellir gan y swyddog hawliadau.
41. Nid yw paragraffau 38 i 40 yn berthnasol i unrhyw ddisgrifiad o anaf a gynhwysir ym Mandiau 1 i 5 o'r Cynllun lawndal am Anafiadau Troseddol 2008 ond ni chynhwysir yn y tariff yn Atodiad D.

### **Taliadau am golli cyflog**

42. Bydd ymgeisydd sy'n gymwys am daliadau am anafiadau yn gymwys am daliad am golli cyflog os yw'n cwrdd ag amodau ym mharagraff 43.
43. (1) Yr amod cyntaf yw mai o ganlyniad uniongyrchol i'r anaf y mae'r ymgeisydd yn gymwys am daliad am anafiadau bod ganddo dim neu allu cyfyngedig iawn ar gyfer gwaith sy'n talu.
- (2) Yr ail amod yw bod yr ymgeisydd:
- a. mewn gwaith sy'n talu ar ddyddiad y digwyddiad sy'n peri'r anaf , neu, mewn achos o gyfres o ddigwyddiadau, ar unrhyw adeg yn ystod y gyfres;
  - b. wedi bod mewn gwaith rheolaidd sy'n talu am gyfnod o o leiaf tair blynedd yn syth cyn dyddiad y digwyddiad sy'n peri'r anaf; neu
  - c. â rheswm da am beidio â bod mewn gwaith rheolaidd sy'n talu am y cyfnod a nodwyd ym mharagraff (b)..
- (3) At ddiben y paragraff hwn, bydd person yn cael ei ystyried i fod â rheswm da am beidio â bod mewn gwaith rheolaidd sy'n talu os, er enghraifft, nad oeddynt yn gallu gweithio oherwydd ei fod mewn addysg llawn amser, neu oherwydd ei oed neu gyda chyfrifoldebau gofalu.
44. Bydd y cyfnod y mae taliad o golli cyflog yn berthnasol iddo yn cychwyn ar y diwrnod cyntaf o'r 29ain wythnos ymlle mae'r ymgeisydd yn bodloni'r amod ym mharagraff 43(1).

45. Bydd y cyfnod y mae taliad o golli cyflog yn berthnasol iddo yn diweddu ar p'run bynnag o'r canlynol yw'r cyntaf:
- (a) y dyddiad pan na fydd yr ymgeisydd mwyach yn bodloni'r amod ym mharagraff 43(1);
  - (b) y dyddiad pan fydd yr ymgeisydd yn cyrraedd oedran pensiwn gwladol; neu
  - (c) lle mae'r anaf perthnasol wedi arwain at ddisgwyliad einioes yn is nag oedran y pensiwn gwladol, diwedd disgwyliedig einioes yr ymgeisydd
46. Gall taliad o golled o gyflog fod yn berthnasol i gyflog a gollwyd cyn y pennir cais (colled o gyflog yn y gorffennol) a cholled o'r fath ar ôl y penderfyniad (colled o gyflog yn y dyfodol).
47. Amcangyfrifir taliad o golled o gyflog mewn perthynas â cholled o gyflog yn y gorffennol drwy luosogi:
- (a) y gyfradd wythnosol, ar ddyddiad y pennu, o Dâl Salwch Statudol o dan adran 157 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol a Chyfrandaliadau a Budd-daliadau 1992; gyda
  - (b) y nifer o wythnosau, gan drin rhannau o wythnosau yn wythnosau cyflawn, yn ystod y cyfnod sy'n cychwyn o'r dyddiad a amcangyfrifir yn unol â pharagraff 44 ac yn diweddu ar y diwrnod y pennir y cais.
48. Amcangyfrifir taliad o golled o gyflog mewn perthynas â cholled o gyflog yn y dyfodol drwy luosogi:
- a. y gyfradd wythnosol, ar ddyddiad y pennu, o Dâl Salwch Statudol o dan adran 157 Ddeddf Nawdd Cymdeithasol a Chyfrandaliadau a Budd-daliadau 1992; gyda
  - b. y nifer o wythnosau, gan drin rhannau o wythnosau yn wythnosau cyflawn, yn ystod y cyfnod sy'n cychwyn o'r dyddiad y pennir y cais ac yn diweddu ar y diwrnod a amcangyfrifir yn unol â pharagraff 45.
49. Disgowntir taliad o golled o gyflog a wneir o dan baragraff 48 (colled o gyflog yn y dyfodol) yn unol â'r Tablau yn Atodiad DD, sy'n gosod allan:
- (a) lluosyddion i'w defnyddio i gymryd ystyriaeth o dderbyniad cyflym o daliadau (Tabl A);
  - (b) ffactorau disgownt i'w defnyddio i gyfandaliad mewn perthynas â cholled sy'n cychwyn ar ddyddiad yn y dyfodol (Tabl B); a



- (c) rhagdybiaethau mewn perthynas â disgwyliad einioes(Tabl C).

### **Taliadau am dreuliau arbennig**

50. Bydd ymgeisydd sy'n gymwys am daliad am anafiadau yn gymwys am daliad am dreuliau arbennig os, o ganlyniad uniongyrchol i anaf perthnasol y mae'n gymwys am daliad am anafiadau, mae wedi colli cyflog neu'r gallu i ennill cyflog, neu wedi bod yn analluog i raddau tebyg, am fwy na 28 wythnos.
51. Gwneir taliad am dreuliau arbennig dim ond mewn perthynas â threuliau o'r mathau a restrir ym mharagraff 52:
- (a) a wariwyd o reidrwydd ar neu ar ôl dyddiad yr anaf gan yr ymgeisydd fel canlyniad uniongyrchol o'r anaf troseddol yn achosi'r taliad am anafiadau;
  - (b) ar gyfer y ddarpariaeth hwnnw, neu ddarpariaeth tebyg, nad yw ar gael yn rhad ac am ddim i'r ymgeisydd o ffynhonnell arall; ac
  - (c) mae'r gost yn rhesymol..
52. Gellir gwneud taliad am dreuliau arbennig yn unig mewn perthynas â'r treuliau canlynol:
- (a) eiddo neu offer yr ymgeisydd, a ddibynwyd arno gan yr ymgeisydd fel cynorthwy corfforol a gollwyd neu a ddifrodwyd o ganlyniad i'r digwyddiad sy'n peri'r anaf ;
  - (b) costau (ac eithrio mewn perthnas â cholli cyflog) yn deillio o drin yr anaf perthnasol o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu wasanaeth iechyd y wladwriaeth ac eithrio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol lle byddai'r costau hynny wedi deillio pe bai'r ymgeisydd wedi ei drin o dan Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr;
  - (c) offer arbennig;
  - (ch) addasu llety'r ymgeisydd;
  - (d) costau gofal mewn perthynas â gweithrediadau corfforol yr ymgeisydd neu baratoi prydu;
  - (dd) costau o arolygu'r ymgeisydd er mwyn osgoi perygl sylweddol i'r ymgeisydd neu berson arall;
  - (e) ffioedd taladwy, yng Nghymru a Lloegr, i'r Llys Gwarchodaeth neu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a sefydlwyd o dan Ddeddf Galluoedd Meddyliol 2005,

neu, yn yr Alban, i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus neu i lys y siryf mewn perthynas â chais o dan Ddeddf Oedolion ag Analluedd (Yr Alban) 2000;

- (f) costau yn codi o weinyddu materion yr ymgeisydd oherwydd ei ddiffyg gallu meddyliol;
- (ff) costau sefydlu ymddiriedolaeth yn dilyn cyfarwyddyd swyddog hawliadau o dan baragraff 106.

53. (1) Ymhle mae'r angen am offer arbennig yn debygol o barhau, bydd swyddog hawliadau

- a. yn asesu'r gost o gael rhywbeth newydd yn ei le, gan gymryd i ystyriaeth y nifer o ddarnau newydd;
- b. yn tynnu y swm y gallai offer presennol yr ymgeisydd gael ei werthu amdano ar bob achlysur; ac
- c. yn defnyddio ffactor disgownt priodol yn unol â Thabl B o Atodiad DD.

(2) Ymhle mae'r angen am unrhyw dreuliau arbennig eraill o'r math a ddynodir ym mharagraff 52 yn debygol o barhau, bydd swyddog hawliadau'n asesu'r gost flynyddol o'r treuliad ac yn defnyddio'r Tablau priodol yn Atodiad DD.

54. Atelir neu leiheir taliad treuliadau arbennig i gymryd i ystyriaeth derbyn, neu hawl i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol mewn perthynas â threuliadau arbennig yr ymgeisydd.

55. (1) Atelir neu leiheir taliad treuliadau arbennig i gymryd i ystyriaeth derbyn, neu hawl i daliad yswiriant mewn perthynas â threuliadau arbennig yr ymgeisydd.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw daliad o dreuliau arbennig o dan baragraff 52(a), (b) (ff), neu unrhyw golledion yn y dyfodol am yr un treuliad o dan baragraff 53, anwybyddir taliad yswiriant o dan is-baragraff (1) os talwyd y polisi yswiriant yn llwyr:

- (a) gan yr ymgeisydd; neu
- (b) mewn perthynas ag ymgeisydd a oedd yn blentyn ar adeg y cafodd yr anaf troseddol, gan ei riant neu warcheidwad.

56. Bydd unrhyw leihad o dan baragraff 54 neu 55 yn y cyfanswm o fudd-daliadau neu daliadau yswiriant a gyfeirir atynt, net o dreth incwm. Os yw'r budd-daliadau neu daliadau yswiriant i'w talu yn y dyfodol, amcangyfrifir y lleihad fel cyfandaliad, gan ddefnyddio'r Tablau perthnasol yn Atodiad DD.

## Taliadau mewn achosion angheuol

57. Gall perthynas cymwys o berson sydd wedi marw o ganlyniad uniongyrchol o gael anaf o dan amgylchiadau sy'n disgyn o dan baragraff 4 neu 5 fod yn gymwys am:
- (a) daliad profedigaeth (paragraffau 61a 62);
  - (b) daliad plant (paragraffau 63 i 66);
  - (c) daliad dibyniaeth (paragraffau 67 i 74)..
58. Gall perthynas cymwys person sydd wedi cael anaf perthnasol sy'n deillio'n uniongyrchol o dan amgylchiadau sy'n disgyn o dan baragraff 4 neu 5 ond sydd wedi marw mewn ffordd nad yw'n ganlyniad uniongyrchol o'r anaf hwnnw fod yn gymwys am ddyfarniad yn unol â pharagraffau 80 i 84..
59. Perthynas cymwys yw person, a oedd ar adeg marwolaeth yr ymadawedig:
- (a) yn briod â neu'n partner sifil yr ymadawedig, a oedd yn byw gyda'r ymadawedig yn yr un tŷ;
  - (b) yn bartner yr ymadawedig (ac eithrio yn briod neu'n bartner sifil), a oedd yn byw gydag ef yn yr un tŷ ac wedi bod yn gwneud hynny am gyfnod parhaus o o leiaf dwy flynedd yn syth cyn dyddiad y marwolaeth;
  - (c) yn berson a fyddai'n bodloni is-baragraff (a) neu (b) ond nad oedd yn byw gyda'r ymadawedig un ai oherwydd afiechyd neu lesgedd un o'r ddau berson;
  - (ch) yn briod neu bartner sifil neu cyn-briod neu cyn bartner sifil yr ymadawedig a oedd yn dibynnu'n ariannol ar yr ymadawedig
  - (d) yn rhiant yr ymadawedig; neu
  - (dd) yn blentyn yr ymadawedig.
60. Yr uchafswm dyfarniad a ellir ei wneud o dan y Cynllun hwn mewn perthynas ag anaf troseddol angheuol, cyn unrhyw leihad o dan baragraffau 24 i 28, yw £500,000. Mae'r uchafswm hwn yn cynnwys unrhyw daliad a wnaethpwyd i'r ymadawedig cyn ei farwolaeth mewn perthynas â'r anaf troseddol o ganlyniad i'r hyn mae wedi marw.

## Taliadau profedigaeth

61. Gellir gwneud taliad profedigaeth i berthynas cymwys nad yw'n:
- (a) cyn-briod neu gyn-bartner yr ymadawedig; neu
  - (b) person sydd wedi ymddieithrio oddi wrth yr ymadawedig ar adeg ei farwolaeth.

62. Ymhle mae swyddog hawliadau'n fodlon gall mwy nag un person fod yn gymwys am daliad profedigaeth mewn perthynas â'r ymadawedig, y swm ar gyfer pob taliad profedigaeth yw £5,5000. Fel arall, swm y taliad profedigaeth yw £11,000.

### **Taliadau plant**

63. Gellir gwneud taliad plant i berson sy'n berthynas cymwys o dan baragraff 59(dd) os oedd y person hwnnw, ar adeg marwolaeth yr ymadawedig o dan 18 mlwydd oed ac yn ddibynnol ar yr ymadawedig am wasanaethau rhiant.
64. Bydd y cyfnod mae taliad plant yn cyfeirio ato yn dechrau ar dyddiad y marwolaeth ac yn diweddu ar y diwrnod cyn 18fed penblwydd y plentyn.
65. Swm taliad plant yw:
- (a) £2,000 am bob blwyddyn (ar yr un cyfartaledd ar gyfer pob rhan o flwyddyn) am y cyfnod y mae'r taliad yn berthnasol iddo; a
  - (b) unrhyw swm atodaol mewn perthynas ag unrhyw dreuliau a ddioddefwyd gan y plentyn o ganlyniad uniongyrchol i wasanaethau rhiant mae'r swyddog hawliadau'n eu hystyried yn rhesymol.
66. Telir y taliad plant fel cyfandaliad, gan ddefnyddio'r Tablau perthnasol yn Atodiad DD i'r cyfran ran o'r taliad sy'n berthnasol i golledion sy'n deillio ar y diwrnod y pennir y cais.

### **Taliadau dibyniaeth**

67. Gellir gwneud taliad dibyniaeth i berthynas cymwys a oedd ar adeg marwolaeth yr ymadawedig yn ddibynnol yn ariannol neu'n gorfforol ar yr ymadawedig. Yr oedd perthynas cymwys yn ddibynnol yn gorfforol ar yr ymadawedig os mai'r ymadawedig oedd ei brif ofalwr.
68. Bydd y cyfnod y perthynai taliad dibyniaeth iddo yn dechrau ar ddyddiad y marwolaeth.
69. (1) Bydd y cyfnod y perthynai taliad dibyniaeth iddo yn diweddu ar p'run bynnag yw'r cynharaf o:
- (a) yn yr achos o berthynas cymwys sy'n blentyn o dan 18 mlwydd oed, y diwrnod cyn ei benblwydd yn 18;;
  - (b) y diwrnod y byddai'r ymadawedig wedi cyrraedd oedran pensiwn gwladol;

- (c) y dyddiad pryd, cyn y digwyddiad a achosodd ei anaf droseddol, byddai disgwyl i einioes yr ymadawedig ddod i ben yn unol â Thabl C o Atodiad DD neu dystiolaeth feddygol arall sydd ar gael;
- (ch) diwedd disgwyliedig einioes y perthynas cwmwys; neu
- (d) 50fed penblwydd y dyddiad a gyfeirir ato ym mharagraff 68

(2) Wrth amcangyfrif swm y taliad dibyniaeth, ni chymerir i ystyraeth ail briodas neu partneriaeth sifil newydd perthynas cymwys, na'i obeithion o ail-briodi neu fynd i mewn i partneriaeth sifil arall.

70. Gwneir taliad mewn perthynas â dibyniaeth ariannol os ar ddyddiad ei farwolaeth y bodlonir yr amodau ym mharagraff 43(2) mewn perthynas â'r ymadawedig ac nid budd-daliadau nawdd cymdeithasol oedd ei brif ffynhonnell incwm.
71. Amcangyfrif y taliad dibyniaeth mewn perthynas â phob wythnos lle mae un neu fwy o'r perthnasau cymwys yn gymwys am daliad dibyniaeth yn unol â pharagraffau 68 a 69. Y cyfanswm taladwy am bob un o'r wythnosau hynny fydd y gyfradd wythnosol, ar ddyddiad pennu, o Dâl Salwch Statudol o dan adran 157 Deddf Nawdd Cymdeithasol a Chyfrandaliadau a Budd-daliadau 1992. Rhennir y swm wythnosol i raniadau cyfartal rhwng pob perthynas cymwys sydd yn gymwys mewn unrhyw wythnos. Trinnir perthynas cymwys sy'n gymwys am ran o wythnos fel ei fod yn gymwys am y cyfan o'r wythnos honno.
72. Cyfanswm taliad dibyniaeth i berthynas dibynnol a wneir mewn perthynas â dibyniaeth ariannol fydd y swm cronol o symiau a ddyrennir i'r perthynas cymwys o dan baragraff 71 am holl gyfnod ei ddibyniaeth.
73. Telir y taliad dibyniaeth fel cyfandaliad, trwy ddefnyddio'r Tablau perthnasol yn Atodiad DD i'r cyfran ran o'r cyfnod mae'r taliad yn berthnasol iddo a ddigwydd ar ôl y dyddiad y pennir y cais.
74. Amcangyfrifir taliad mewn perthynas â dibyniaeth corfforoil fel pe bai'n daliad treuliadau arbennig i'r dibynnydd am gostau gofal a doruchwyliaeth y dibynnydd hwnnw o dan baragraff baragraff 52(d) ac (dd). Mae paragraffau 53 i 56 i'r amcangyfrifiad o swm y taliad hwnnw yn yr un ffordd maent yn berthnasol i berson sydd wedi dioddef anaf troseddol.

## **Taliadau angladd**

75. Ymhle mae person wedi marw o ganlyniad uniongyrchol o gael anaf troseddol mewn amgylchiadau sy'n disgyn oddi mewn i baragraff 4 neu 5 gellir gwneud taliad angladd mewn perthynas â threuliau ei angladd er budd ei ystad.
76. Yn amodol i baragraff 77 swm taliad angladd yw £2,500.
77. Gellir gwneud taliad yn uwch na £2,500 mewn perthynas â chostau angladd wedi eu gwario'n rhesymol, hyd at £2,500 pellach.

## **Effaith taliad dibyniaeth neu taliad plant i'r ymadawedig cyn ei farwolaeth**

78. Mae paragraff 79 yn berthnasol wrth amcangyfrif swm taliad dibyniaeth neu daliad plant sy'n deillio o ddibyniaeth person a dderbyniodd dyfarniad o dan y Cynllun hwn ac sydd bellach wedi marw o'r anaf perthnasol a ddeilliodd o'r dyfarniad.
79. Ymhle mae'r paragraff hwn yn berthnasol:
- (a) lle mae mwy nag un person yn gymwys am daliad dibyniaeth neu daliad plant, lleiheir cyfataliadau o'r fath gan swm y taliad a wnaethpwyd i'r ymadawedig yn gytbwys rhwng pob derbynnydd;
  - (b) lle mae un person yn gymwys am daliad o'r fath, lleiheir y taliad hwnnw gan swm y taliad a wnaethpwyd i'r ymadawedig.

## **Taliadau fel canlyniad anaf troseddol lle mae'r dioddeddfwr yn marw o achos amnghysylltiedig cyn gellir gwneud dyfarniad iddo**

80. Gall perthynas cymwys person sydd wedi dioddef anaf troseddol ac sydd wedi marw mewn ffordd nad yw'n achos uniongyrchol i'r anaf hwnnw fod yn gymwys am ddyfarniad os ar y dyddiad bu farw'r ymadawedig:
- (a) yr oedd yr ymadawedig yn gymwys am, ond heb dderbyn, dyfarniad terfynol o dan y Cynllun hwn; ac
  - (b) yr oedd y perthynas cymwys yn ddibynnol yn ariannol ar yr ymadawedig.
81. Rhaid gwneud cais o dan baragraff 80:
- (a) oddi mewn i ddwy flynedd o ddyddiad marwolaeth yr ymadawedig; neu
  - (b) os yn ddiweddarach, gyda thystiolaeth gefnogol sy'n golygu gellir pennu'r cais heb ymholiadau trylwyr pellach gan swyddog hawliadau.

82. Gall perthynas cymwys sy'n gymwys am ddyfarniad o dan baragraff 80 dderbyn taliad am:
- a. golled cyflog yr ymadawedig yn deillio fel canlyniad uniongyrchol o'r anaf perthnasol, wedi ei asesu yn unol â pharagraffau 42 i 47, ac eithrio ni wneir taliad mewn perthynas ag unrhyw golled o ddyddiad marwolaeth yr ymadawedig; ac
  - b. dreuliau arbennig costau gan yr ymadawedig o galyniad uniongyrchol i'r anaf perthnasol hyd at ddyddiad marwolaeth yr ymadawedig, wedi ei asesu yn unol â pharagraffau 50 i 52 a 54 i 56.
83. Lleiheir unrhyw daliad a wneir o dan baragraff 80 gan y swm o unrhyw ddyfarniad a delir i'r ymadawedig.
84. Ni thelir unrhyw ddyfarniad a delir i'r ymadawedig a'i berthnasau cymwys mwy na £500,000.

#### **Effaith taliadau eraill ar ddyfarniad**

85. (1) Atelir neu leiheir dyfarniad o dan y Cynllun hwn os mewn perthynas â'r anaf y mae'r dyfarniad yn berthnasol i'r ymgeisydd, p'run ai oddi mewn i unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig neu rywle arall:
- (a) yn derbyn neu ddyfernir iawndal am anafiadau troseddol neu daliad tebyg;
  - (b) yn derbyn gorchymyn am iawndal gan lys sifil;
  - (c) yn setlo cais am iawndal; neu
  - (ch) yn derbyn gorchymyn iawndal neu gynnig a wneir yn ystod achos troseddol.
- (2) Lleiheir dyfarniad gan y swm o unrhyw daliadau a restrir yn is-baragraff (1), net o unrhyw fudd-daliadau adferadwy o dan y Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Adfer Budd-daliadau) 1997 neu gyfraith gyfwerth (p'run ai mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig neu fan arall).

#### **Ceisiadau**

86. Pennir cais am ddyfarniad gan swyddog hawliadau yn yr Awdurdod yn unol â'r Cynllun hwn.
87. Yn amodol ar baragraffau 88 a 88A, mae'n rhaid i gais gael ei anfon gan y ceisydd er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn ei gael cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, o fewn rheswm, ar ôl y digwyddiad a arweiniodd at

yr anaf troseddol, a chyn pen dwy flynedd i ddyddiad y digwyddiad hwnnw mewn unrhyw achos.

88. (1) Ymhle yr oedd yr ymgeisydd yn blentyn o dan 18 mlwydd oed ar ddyddiad olaf y digwyddiad sy'n peri'r anaf troseddol, rhaid anfon y cais gan yr ymgeisydd fel y'i derbynnir gan yr Awdurdod:
- (a) mewn achos a adroddwyd i'r heddlu cyn penblwydd yr ymgeisydd yn 18 mlwydd oed, oddi mewn i'r cyfnod yn diweddu ar ei benblwydd yn 20 mlwydd oed; neu
  - (b) mewn achos a adroddwyd i'r heddlu ar neu ar ôl penblwydd yr ymgeisydd yn 18 mlwydd oed, oddi mewn i ddwy flynedd ar ôl y dyddiad yr adroddiad cyntaf i'r heddlu mewn perthynas â'r digwyddiad.

(2) Ni dderbynnir cais o dan y paragraff hwn oni bodlonir y swyddog hawliadau bod y dystiolaeth a gyflwnir i gefnogi'r cais yn golygu y gellir ei bennu heb ymholiadau trylwyr pellach gan swyddog hawliadau.

(3) Nid yw'r paragraff hwn yn berthnasol i geisydd y mae paragraff 88A yn berthnasol iddo.

- 88A. (1) Mae'r paragraff hwn yn berthnasol i'r canlynol:
- (a) ceisydd y mae paragraff 18A yn berthnasol iddo;
  - (b) ceisydd:
    - (i) sydd wedi cael anaf troseddol ar 1 Awst 1964 neu ar ôl hynny, ond cyn 1 Hydref 1979;
    - (ii) oedd yn byw gyda'r ymosodwr fel aelodau o'r un teulu ar adeg y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf; ac
    - (iii) sydd heb wneud cais o dan y Cynllun hwn, nac unrhyw Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol, yng nghyswllt yr anaf hwnnw cyn y dyddiad diwygio yn 2019.
- (2) Lle bo ceisydd y mae'r paragraff hwn yn berthnasol iddo yn gwneud cais o dan y Cynllun hwn, fel y'i diwygiwyd ar y dyddiad diwygio yn 2019, mae'n rhaid i gais gael ei anfon gan y ceisydd er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn ei gael cyn pen dwy flynedd i'r diwrnod ar ôl y dyddiad diwygio yn 2019.
- (3) Ond:



(a) lle bo ceisydd y mae'r paragraff hwn yn berthnasol iddo dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf troseddol, a  
(b) lle bo'r swyddog hawliadau yn fodlon na fyddai'r ceisydd wedi gallu gwneud cais o dan y Cynllun hwn, fel y'i diwygiwyd, o fewn y cyfyngiadau amser a nodir yn is-baragraff (2),  
gall y ceisydd gyflwyno'r cais cyn pen dwy flynedd i'r dyddiad ar ôl gwneud yr adroddiad cyntaf i'r heddlu yng nghyswllt y digwyddiad.

89. Gall swyddog hawliadau ymestyn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 87, 88 neu 88A, lle bo'r swyddog hawliadau'n fodlon

- (a) oherwydd anmgylchiadau eithriadol ni allai'r ymgeisydd geisio ynghynt; ac
- (b) mae'r dystiolaeth a gyflwynir mewn cefnogaeth i'r cais yn golygu y gellir ei bennu heb ymholiadau trylwyr pellach gan swyddog hawliadau.

90. Gall swyddog hawliadau roi cyfarwyddiadau, osod amodau, a gwneud cyfryw ymholiadau a threfniadau mewn perthynas â chais fel yr ystyria'r swyddog hawliadau'n briodol.

91. Rhaid i ymgeisydd:

- (a) wneud ei gais ar y ffurflen sydd ar gael gan yr Awdurdod;
- (b) gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a wneir neu amod a orfodir gan swyddog hawliadau mewn perthynas â'i gais;
- (c) hysbysu'r swyddog hawliadau o unrhyw gais neu achos a allai fod yn ffynhonnell dyfarniad neu daliad a gyfeirir ato ym mharagraff 85 mewn perthynas â'r anaf troseddol sy'n achosi'r cais, a dilyniant y cais neu'r achos;
- (ch) gynorthwyo'r swyddog hawliadau, ac unrhyw gorff neu berson, cyn belled â bod yn rhesymol ymarferol mewn perthynas i ystyriaeth o'i achos; a
- (d) ddarparu'r swyddog hawliadau ag unrhyw newid yn ei gyfeiriad gohebu cyn cynted â bod yn ymareferol rhesymol.

92. Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r cyfryw wybodaeth mewn perthynas â'i gais gall swyddog hawliadau fod yn rhesymol ei angen, yn arbennig:

- (a) tystiolaeth bod yr ymgeisydd yn bodloni gofynion paragraff 10 mewn perthynas â chymwyster;
  - (b) tystiolaeth feddygol mewn perthynas â'r anaf perthnasol a achosodd y cais;
  - (c) ymhle mae'r cais yn cynnwys am daliad heblaw am daliad am anaf, tystiolaeth i gefnogi y rhan hwnnw o'r cais; a
  - (ch) chyfryw wybodaeth sydd gan yr ymgeisydd, neu sydd yn rhesymol ar gael iddo, mewn perthynas â'i gymwyster am daliad o unrhyw ffynhonnell arall mewn perthynas â'r anaf perthnasol neu unrhyw golledion eraill y cyfeiria ei gais o dan y Cynllun hwn.
93. Fel rheol, ni fydd yr Awdurdod yn talu unrhyw gostau a delir gan yr ymgeisydd mewn perthynas â chais. Yn arbennig, ni fydd yn talu costau cynrhychiolaeth gyfreithiol neu unrhyw gynrychiolaeth arall a delir gan yr ymgeisydd.
94. Bydd yr Awdurdod yn talu y costau rhesymol o ganfod tystiolaeth a delir mewn perthynas â chais ond lle y bodlonnir Swyddog Hawliadau:
- (a) mewn perthynas â'r dystiolaeth feddygol y cyfeirir ato ym mharagraff 92(b):
    - (i) na all yr ymgeisydd yn rhesymol ganfod y wybodaeth honno, ond gall yr Awdurdod;
    - (ii) na all yr ymgeisydd fforddio ei ganfod; neu
    - (iii) fod y gost o'i ganfod yn fwy na £50.
  - (b) mewn perthynas â thystiolaeth feddygol bellach neu unrhyw dystiolaeth arall a allai'r swyddog hawliadau fod yn rhesymol fod ei hangen:
    - (i) bod y gyfryw dystiolaeth ei hangen er mwyn ystyriaeth lawn o'r cais; a
    - (ii) byddai'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i'r Awdurdod dalu'r gost o'i ganfod.
95. Bydd yr Awdurdod yn talu costau treuliadau atodol rhesymol a delir gan yr mewn cysylltiad â chael tystiolaeth feddygol neu dystiolaeth arall sy'n disgyn oddi mewn i baragraff 94.
96. Ymhle gwneir dyfarniad, gall swyddog hawliau dynnu o'r dyfarniad hwnnw y costau canlynol a dalwyd mewn cysylltiad â'r cais:
- a. ymhle talodd yr Awdurdod costau'r dystiolaeth feddygol a gyfeirir atynt ym mharagraff 92(b), y gost hynny hyd at swm o £50; ac

- b. costau a dalwyd gan yr Awdurdod o ganlyniad i'r ymgeisydd fethu mynychu apwyntiad meddygol neu apwyntiad arall heb esgus rhesymol.

97. Gall cais gael ei dynnu'n ôl gan ymgeisydd ar unrhyw adeg cyn gwneir taliad.

### **Gohirio penderfyniad cais**

98. Gall swyddog hawliadau ohirio penderfynu cais yn llwyr neu'n rhannol:

- (a) mewn achosion eithriadol, tan ddiwedd unrhyw achosion troseddol mewn perthynas â'r digwyddiad sy'n peri'r anaf droseddol lle bodlonnir y swyddog hawliadau eu bod yn berthnasol i'r penderfyniad;
- (b) tan fodlonnir y swyddog hawliadau bod yr ymgeisydd wedi cymryd pob cam rhesymol i gael unrhyw fudd-daliadau nawdd cymdeithasol, taliadau yswiriant, iawndal y mae gan yr ymgeisydd yr hawl iddynt mewn perthynas â'r un anaf; neu
- (c) mewn ymateb i gais o dan baragraff 14.

### **Penderfyniad a thaliad**

99. Bydd swyddog hawliadau yn hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o benderfyniad y cais.

100. Ymhle yr hysbyswyd ymgeisydd o benderfyniad ei gais yn unol â pharagraff 99 ac mae'r ymgeisydd yn dymuno derbyn y penderfyniad hwnnw, ni wneir dyfarniad oni bai i'r ymgeisydd yrru hysbysiad ysgrifenedig o dderbyn o'r penderfyniad fel bod yr Awdurdod yn ei gael oddi mewn i 56 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad.

101. Ymhle yr hysbyswyd ymgeisydd o benderfyniad ei gais yn unol â pharagraff 99 ac mae'r ymgeisydd yn dymuno cael adolygiad o'r penderfyniad hwnnw, rhaid i'r cais am adolygiad gael ei yrru fel bod yr Awdurdod yn ei gael oddi mewn i 56 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad

102. Gall swyddog hawliadau ymestyn yr amser terfyn ym mharagraff 100 neu 101 am un cyfnod pellach o 56 diwrnod ymhle:

- (a) gwneir cais ysgrifenedig i ymestyn yr amser terfyn hwn, un ai cyn neu ar ôl terfyniad y cyfnod cychwynnol; ac
- (b) oherwydd amgylchiadau eithriadol, nid oedd yr ymgeisydd yn gallu cydymffurfio â'r amser terfyn.

103. (1) Ymhle nad yw ymgeisydd wedi rhoi hysbysiad o dan baragraff 100 neu 101 oddi mewn i'r cyfnod perthnasol, neu wedi methu gwneud hynny oddi mewn i unrhyw estyniad a ganiatawy o dan baragraff 102, gall swyddog hawliadau dynnu'nôl y penderfyniad, ac ni wneir unrhyw ddyfarniad.
- (2) Ni all swyddog hawliadau dynnu'nôl penderfyniad o dan y paragraff hwn cyn diwedd y cyfnod o ddwy flynedd yn dechrau ar y diwrnod y byddai'r amser terfyn yn dod i ben.
104. Rhaid i swyddog hawliadau anfon hysbyseb o dynnu'nôl ysgrifenedig o dan baragraff 103 at yr ymgeisydd.
105. Fel rheol telir dyfarniad fel cyfanfdaliad, yn amodol ar unrhyw cyfarwyddyd a wneir gan swyddog hawliadau o dan baragraff 106.
106. Gall swyddog hawliadau roi cyfarwyddiadau, osod amodau, a gwneud cyfryw threfniadau eraill mewn perthynas fel yr ystyria'r swyddog hawliadau'n briodol mewn cysylltiad â derbyn, talu a gweinyddu'r dyfarniad, gan gynnwys at y diben o::
- (a) wneud un neu fwy o daliadau dros dro;
  - (b) sefydlu ymddiriedolaeth i weinyddu'r dyfarniad, ar gyfryw amodau neu'n unol â'r cyfryw trefniadau ag y gall y swyddog hawliadau eu rhagnodi;
  - (c) gadw'r dyfarniad tan benblwydd yr ymgeisydd yn 18 mlwydd oed;
  - (ch) ddarparu bod y dyfarniad i gynnwys yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol blwydd-dâl
  - (d) fynnu ar apwyntiad dirpwy neu warcheidwad;
  - (dd) ad-dalu y dyfarniad yn llawn neu'n rhannol pe na byddai ei angen mwyach gan yr ymgeisydd, gan gynnwys drwy ymddiriedloadeth ar delerau sy'n darparu am arian nas defnyddid i'w dychwelyd i'r Awdurdod.
107. Ni thelir unrhyw gostau sy'n deillio o ganlyniad i gyfarwyddyd, amod neu drefniant o dan gan yr Awdurdod, oni bai bod dyfarniad yn cynnwys taliad o dan baragraff 52(i), pan delir ond y gost sy'n codi mewn perthynas â'r taliad hwnnw.
108. Yn amodol ar gyfarwyddyd, amod neu drefniant mewn cysylltiad â dyfarniad o dan baragraff 106, mae'r hawl i ddyfarniad ond yn codi ar y dyddiad mae'r Awdurdod yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o dderbyn y penderfyniad.

## **Ail-ystyriaeth ac ad-daliad**

109. Gall swyddog hawliadau ail-ystyried penderfyniad cyn taliad olaf dyfarniad, p'run ai a yw taliad dros dro wedi ei wneud ai peidio, ymhle mae'r swyddog hawliadau'n dod yn ymwybodol o dystiolaeth neu newid mewn amgylchiadau a, pe bai wedi bod yn wybyddus cyn y penderfyniad, fyddai wedi effeithio a fyddai dyfarniad wedi ei wneud neu swm y dyfarniad hwnnw.
110. (1) Gall swyddog hawliadau fod angen ad-daliad o'r cyfan neu ran o ddyfarniad ymhle y bodlonnir y swyddog hawliadau bod y dystiolaeth a dderbynnir ar ôl y taliad olaf yn dangos:
- (a) nad yw'r ymgeisydd wedi cyd-weithredu cyn belled â bod yn rhesymol ymarferol o ddod â'r ymosodwr gerbron llys;
  - (b) bod yr ymgeisydd wedi cam-arwain swyddog hawliadau'n fwriadol mewn agwedd perthnasol o'i gais; neu
  - (c) bod yr ymgeisydd wedi derbyn taliad mewn perthynas yr hwn gallai lleihad fod wedi ei wneud o dan baragraffau 54, 55 neu 85.
- (2) Swm yr ad-daliad o dan:
- (a) is-baragraff (1)(a) neu (b) fydd y swm llawn o'r taliad a wnaethpwyd i'r ymgeisydd; ac
  - (b) is-baragraff (1)(c) fydd am y swm a dderbyniwyd gan yr ymgeisydd y gallai fod wedi ei dynnu o'i ddyfarniad..
111. Bydd swyddog hawliadau'n hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o benderfyniad i ail-ystyried penderfyniad neu i fynnu ad-daliad o dan baragraff 109 neu 110.
112. Rhaid i ymgeisydd gyflwyno sylwadau am benderfyniad o'r fath fel y'u derbynnir gan yr Awdurdod oddi mewn i 30 diwrnod o'r hysbysiad ysgrifenedig o dan baragraff 111.
113. Bydd swyddog hawliadau'n hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o'r penderfyniad terfynol ar ail-ystyriaeth neu ad-daliad.

### **Ad-daliad pellach ar ail-agor cais**

114. Gall swyddog hawliadau ail-agor cais ar ôl y gwneir dyfarniad terfynol, gan gynnwys pan dilynir y dyfarniad gan gyfarwyddyd y Tribiwnlys, er mwyn gwneud taliad atodol ymhle bodlonnir amod ym mharagraff 115.
115. Yr amodau a gyfeirir atynt ym mharagraff 114 yw:
- (a) person sydd wedi derbyn dygarniad ac wedi hynny yn marw o ganlyniad i'r anaf troseddol a berodd y dyfarniad; neu
  - (b) mae gymaint o newid o bwys yng nghyflwr meddygol yr ymgeisydd y byddai parhau â'r penderfyniad gwreiddiol i sefyll yn achosi cam â'r ymgeisydd.
116. Gall cais ond gael ei ail-agor o dan baragraff 114:
- (a) oddi mewn i ddwy flynedd ar ôl y derbyniodd yr Awdurdod yr hysbysiad o dderbyn y dyfarniad, neu o ddyddiad cyfarwyddyd y Tribiwnlys i wneud dyfarniad; neu r
  - (b) os yn ddiweddarach, gyda thystiolaeth sy'n cefnogi sy'n golygu gall y cais ei benderfynu heb ymholiadau trylwyr pellach gan swyddog hawliadau.

### **Adolygu**

117. Gall ymgeisydd geisio adolygiad o:
- (a) benderfyniad mewn perthynas â phennu dyfarniad neu ei swm, gan gynnwys ar ei ail-agor o dan baragraff 114;
  - (b) benderfyniad o dan baragraff 103 i dynnu penderfyniad yn ei ôl;
  - (c) benderfyniad terfynol a hysbyswyd o dan baragraff 113 ar ail-ystyriaeth dyfarniad;
  - (ch) benderfyniad terfynol a hysbyswyd o dan baragraff 113 i angen ad-daliad neu ad-daliad rhannol dyfarniad;
  - (d) benderfyniad i beidio ag estyn yr amser terfyn o dan baragraff 89, 102 neu 120;
  - (dd) benderfyniad mewn perthynas â thystiolaeth feddygol o dan baragraff 94(a) neu ddidyniad o dan baragraff 96; a
  - (e) phenderfyniad i beidio ag ail-agor cais o dan baragraff 114
118. Ni all ymgeisydd geisio adolygiad o benderfyniad a wnaethpwyd ar adolygiad neu apêl.

119. Rhaid gwneud cais am adolygiad yn ysgrifenedig gan gynnwys y sail y ceisir yr adolygiad ac unrhyw dystiolaeth gefnogol. Rhaid ei yrru gan yr ymgeisydd fel y'i derbynir gan yr Awdurdod oddi mewn i 56 diwrnod ar ôl dyddiad y mae'r hysbysiad ysgrifenedig l'r hyn mae'r cais yn cyfeirio..
120. Gall swyddog hawliadau ymestyn yr amser terfyn ym mharagraff 119 am un cyfnod pellach o hyd at 56 diwrnod ymhle::
- (a) gwneir cais ysgrifenedig i ymestyn, un ai cyn neu ar ôl y cyfnod dechreuol; ac
  - (b) oherwydd amgylchiadau eithriadol ni allai'r ymgeisydd gydymffurfio â'r amser terfyn.
121. Cynhelir adolygiad, a gwneir penderfyniad ar gais i ymestyn amser o dan baragraff 120 gan swyddog hawliadau nad yw'r swyddog hawliadau a wnaeth y penderfyniad yr hwn mae'r cais hwnnw yn berthnasol iddo. Ni fydd y swyddog hawliadau a gynhalia'r adolygiad yn rhwym gan unrhyw benderfyniad blaenorol a wnaethpwyd mewn perthynas â'r cais..
122. Oni bai bod paragraff 124 yn berthnasol, rhaid i'r swyddog hawliadau sy'n cynnal yr adolygiad anfon hysbysiad ysgrifenedig at yr ymgeisydd o'r penderfyniad ar adolygiad.
123. Ymhle nad yw'r Awdurdod yn derbyn hysbysiad o apêl mewn perthynas â'r penderfyniad yr adolygiad, bydd swyddog hawliadau yn mynd yn ei flaen i benderfynu'r cais yn unol â phenderfyniad yr adolygiad.
124. Ymhle mae swyddog hawliadau'n penderfynu ar adolygiad i ail-agor cais o dan baragraff 114, bydd y swyddog hwnnw'n mynd yn ei flaen i benderfynu'r cais heb anfon hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad yr adolygiad.

### **Apeliadau**

125. Gall ymgeisydd sy'n anfodlon â phenderfyniad ar adolygiad, neu benderfyniad ar ail-agor o dan baragraff 124, apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad neu bennu yn unol â rheolau'r Tribiwnlys.
126. Ar dderbyn hysbysiad o apêl, gall swyddog hawliadau:
- (a) benderfynu bod penderfyniad yr adolygiad o dan apêl wedi ei wneud o dan gangymeriad; a

- (b) gyrru hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad adolygiad wedi ei adolygu at yr ymgeisydd.
127. Rhaid i ymgeisydd sy'n derbyn hysbysiad o dan baragraff 126 o benderfyniad yr adolygiad wedi ei adolygu anfon hysbysiad ysgrifenedig at yr Awdurdod a'r Tribiwnlys o:
- (a) dderbyn penderfyniad yr adolygiad wedi ei adolygu; neu
- (b) wrthod y penderfyniad hwnnw.
128. Ymhle mae'r Awdurdod yn derbyn hysbysiad yn unol â pharagraff 127(a), ac y bodlonnir swyddog hawliadau bod yr ymgeisydd wedi tynnu ei gais yn ôl yn unol â rheolau'r Tribiwnlys penderfynir y cais yn unol â'r penderfyniad adolygu a adolygwyd.
129. Ymhle mae'r Tribiwnlys yn caniatáu apêl yn erbyn penderfyniad ar adolygiad o dan baragraff 117(a), (c), (ch) neu (dd), gall wneud y cyfryw cyfarwyddyd yr ystyria'n briodol ar gyfer penderfynu'r cais gan swyddog hawliadau yn unol â'r Cynllun hwn.
130. Ymhle mae'r Tribiwnlys yn caniatáu apêl yn erbyn penderfyniad ar adolygiad o dan baragraff 117(b), rhaid i'r ymgeisydd hysbysu'r Awdurdod oddi mewn i 56 diwrnod ar ôl penderfyniad yr apêl ei fod un ai yn derbyn neu mae'n ceisio adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.
131. Ymhle mae'r Tribiwnlys yn caniatáu apêl yn erbyn penderfyniad ar adolygiad o dan baragraff 117(d) i beidio ag ymestyn amser terfyn, bydd yr Awdurdod yn trefnu i'r cais gael ei drin pe bai'r amser terfyn wedi ei ymestyn gan swyddog hawliadau yn unol â'r Cynllun hwn. Mewn perthynas â phenderfyniad o dan baragraff 102 neu 120, rhaid i'r ymgeisydd hysbysu'r Awdurdod oddi mewn i 56 diwrnod ar ôl dyddiad penderfyniad yr apêl ei fod un ai yn derbyn y peniad neu benderfyniad priodol neu mae'n ceisio adolygiad.
132. Cyn gall y Tribiwnlys allu caniatáu apêl yn erbyn penderfyniad o dan baragraff 117(e) i beidio ag ail-agor achos, rhaid i'r Tribiwnlys fod yn fodlon gall y cais gael ei benderfynu heb ymholiadau trylwyr pellach gan swyddog hawliadau. Ymhle mae Tribiwnlys yn caniatáu apêl o'r fath, bydd yr Awdurdod yn ail-agor yr achos.
133. Ymhle mae'r Tribiwnlys yn ystyried apêl yn erbyn penderfyniad ar adolygiad o dan baragraff 117(a), (c) neu (ch), gall roi cyfarwyddyd i dalu taliad dros dro i'r ymgeisydd



134. Ymhle mae'r Tribiwnlys yn ystyried apêl yn erbyn penderfyniad ar adolygiad o dan baragraff 117(a), (c) neu (ch) yn blinderus neu wamal, gall leihau swm y dyfarniad fel yr ystyra'n briodol.

### **Gweinyddu'r Cynllun**

135. Mae trefniadau'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer gwneud taliadau o dan y Cynllun hwn yn cynnwys penodi corff at ddiben gweithredu'r Cynllun hwn a elwir yr Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol.

136. Rhaid i Brif Weithredwr yr Awdurdod cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion yr Alban cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.

137. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gweithrediad y Cynllun hwn a sut y gweithredir.

138. Rhaid i'r Prif Weithredwr gadw cyfrifon cywir ac adroddiadau priodol mewn perthynas â'r cofnodion hynny.

139. Rhaid i'r Prif Weithredwr baratoi datganiad o'r cyfrifon ym mhob blwyddyn ariannol yn y cyfryw ffurf y gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo.

140. Rhaid i'r Prif Weithredwr gyflwyno'r datganiad o gyfrifon i'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, neu ar y cyfryw amser y gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo.

### **Darpariaethau trosiannol**

141. Pennir cais a dderbyniwyd cyn y diwrnod mae'r Cynllun hwn yn dod i rym:

- (a) os derbynnir ar neu ar ôl 3 Tachwedd 2008, yn unol â'r Cynllun lawndal am Anafiadau Troseddol 2008 ("Cynllun 2008"); fel y'i addaswyd gan baragraff 145 y Cynllun hwn;
- (b) os derbynnir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2001, ond cyn 3 Tachwedd 2008, yn unol â'r Cynllun lawndal am Anafiadau Troseddol 2001 ("Cynllun 2001"), fel y'i addaswyd gan Gynllun 2008;

- (c) os derbynnir ar neu ar ôl 1 Ebrill 1996, ond cyn 1 Ebrill 2001, yn unol â'r Cynllun lawndal am Anafiadau Troseddol 1996 ("Cynllun1996"), fel y'i addaswyd gan Gynlluniau 2001 a 2008; a
  - (ch) os derbynnir cyn 1 Ebrill 1996, yn unol â'r cynllun anstatudol a ddaeth yn weithredol ar 1 Chwefror 1990 ("Cynllun 1990").
142. Ymhle yn unol â pharagraff 141 penderfynir cais o dan Gynllun 1990 (neu o dan gynllun anstatudol cynharach o dan baragraff 29 o Gynllun 1990), parheir i weinyddu'r cais gan yr Awdurdod, a gwneir unrhyw benderfyniad o dan y Cynllun hwnnw a wneir gan un neu fwy o aelodau Bwrdd lawndal am Anafiadau Troseddol gan y Tribiwnlys.
143. Ymhle penderfynwyd cais o dan Gynllun oedd y caniatâu i'r penderfyniad hwnnw gael ei ail-agor, ystyrir unrhyw gais i wneud hynny yn unol â'r Cynllun hwnnw, yn amodol ar unrhyw addasiadau a ddisgrifir ym mharagraffan 141.
144. Ymhle derbynnir cais ar ôl l'r Cynllun hwn dod i rym mewn perthynas ag unrhyw anaf a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 a arweiniodd at farwolaeth, ni wneir penderfyniad o dan y Cynllun hwn mewn perthynas â pherson oedd y partner o'r un rhyw â'r ymadawedig ar y dyddiad y dioddefodd yr anaf hynny.
145. At ddibenion paragraff 141(a), dylid darllen Cynllun 2008 (ar y dyddiad diwygio yn 2019 ac ar ôl hynny) fel pe bai paragraff 7(b) (y "rheol dan yr un to") wedi'i hepgor.
146. Bydd unrhyw benderfyniad a fydd yn cael ei wneud ar y dyddiad diwygio yn 2019, neu ar ôl hynny, yng nghyswllt:
- a. cais a ddaeth i law ar 27 Tachwedd 2012 neu ar ôl hynny, neu
  - b. ddyfarniad a wnaed ynglŷn â chais o'r fath yn cael ei wneud yn unol â'r Cynllun hwn, fel y'i diwygiwyd ar y dyddiad diwygio yn 2019.



## **Atodiadau**

**A. Dehongli**

**B. Trosedd Treisgar**

**C. Mannau Perthnasol**

**CH. Collfarnau Blaenorol**

**D. Tariff Anafiadau**

**DD. Tablau Lluosogwyr**

## **Atodiad A: Dehongli**

Yn y Cynllun hwn:

mae “y dyddiad diwygio yn 2019” yn cyfeirio at ddyddiad dod i rym y diwygiadau a restrir ym mharagraff 2A;

Ystyr “**ymgeisydd**” yw’r person ar gyfer y mae budd cais am ddyfarniad yn cael ei wneud;

Ystyr “**lluoedd arfog**” yw lluoedd arfog y Deyrnas Unedig Ei Mawrhydi;

Ystyr “**yмосodwr**” yw person cyfrifol am yr anaf perthnasol sy’n deillio o’r weithred ddynodedig ac a yw pwnc y cais;

Ystyr “**yr Awdurdod**” yw’r Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol;

Ystyr “**anaf troseddol**” yw anaf sy’n ymddangos yn Rhan A neu B o’r tariff yn Atodiad D;

Ystyr “**dyfarniad terfynol**” yw dyfarniad, oni bai y posibilrwydd o gael ei ail-agor yn unol â pharagraff 114, sy’n dod â’r cais i ben;

Mae “**budd-daliadau nawdd cymdeithasol**” yn cynnwys bod budd-dal a chynorthwy gwladol a chan awdurdod lleol, p’run ai y’u telir yn llawn neu’n rhannol o’r cronfeydd o unrhyw ran o’r Deyrnas Unedig neu rywle arall; ac

Ystyr “**y Tribiwnlys**” yw’r Tribiwnlys o’r Rheng-gyntaf a sefydlwyd o dan y Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

Mae cyfeiriad yn y Cynllun hwn at blentyn neu riant person arall yn cynnwys cyfeiriad at rywun a dderbynnir felly gan y person arall hwnnw.

Ac eithrio yn y tariff yn Atodiad D, ac oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriad yn y Cynllun hwn at ddigwyddiad yn cynnwys cyfres o ddiigwyddiadau ac, mewn achos o gyfres o ddigwyddiadau.

## Atodiad B: Trosedd Treisgar

1. Mae'r Atodiad hwn yn berthnasol mewn penderfynu a gyflawnwyd trosedd treisgar at ddibenion y Cynllun hwn. Ymhle bodlonnir swyddog hawliadau bod trosedd wedi ei gyflawni bydd o hyd angen i'r trosedd hwnnw i fod yn drosedd treisgar yn unol â'r Atodiad hwn.
2. (1) Yn amodol ar baragraff 3, mae trosedd treisgar yn drosedd sy'n cynnwys:
  - (a) ymosodiad corfforol;
  - (b) unrhyw weithred neu anwaith o natur dreisgar sy'n achosi anaf corfforol i berson;
  - (c) bygythiad yn erbyn person, sy'n achosi ofn o drais yn ddi-oed o dan amgylchiadau ble byddai person o soletwrydd rhesymol yn cael ei roi mewn cyfryw ofn;
  - (ch) ymosodiad rhywiol lle nad oedd y person yn cydsynio fel mater o ffaith; neu
  - (d) arswn neu fflagu.(2) Ni fydd gweithred neu anwaith o dan is-baragraff (1) yn cael ei gynnwys fel trosedd treisgar oni bai y gwneir ef yn fwriadol neu'n fyrbwyll.
3. Mewn achosion eithriadol, gellir trin gweithred fel trosedd treisgar lle:
  - (a) nad yw'r ymosodwr yn gallu ffurfio'r elfen feddyliol sydd ei angen oherwydd gwallgofrwydd; neu
  - (b) mae'r ymosodwr yn blentyn o dan oed cyfrifoldeb troseddol sydd mewn gwirionedd yn deall canlyniadau ei weithrediadau.
4. (1) Ni ystyrir fod trosedd treisgar wedi ei gyflawni at ddibenion y Cynllun hwn os, yn arbennig, bu anaf:
  - (a) o ganlyniad i hunanladdiad neu ymgais i hunanladd, oni bai bod y person hunanladdol wedi gweithredu gyda'r bwriad o achosi niwed i berson arall;
  - (b) o ganlyniad i ddefnyddio cerbyd, oni bai defnyddiwyd y cerbyd gyda'r bwriad o achosi niwed i berson;
  - (c) o ganlyniad i ymosodiad gan anifail, oni bai defnyddiwyd yr anifail gyda'r bwriad o achosi niwed i berson;
  - (ch) a gafwyd yng nghwrs arferol gweithgaredd chwareaon neu ryw weithgaredd aral yr oedd person wedi cydsynio gymryd rhan ynddo; neu
  - (d) a gafwyd *in utero* ganlyniad i sylweddau niweidiol gael eu llyncu'n wirfoddol gan y fam yn ystod beichiogrwydd, gyda'r bwriad o achosi, neu fod yn fyrbwyll o achosi, anaf i'r ffetws.(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "cerbyd" yw unrhyw ddyfais a gellir ei ddefnyddio i gludo pobl, anifeiliaid neu nwyddau, p'run ai ar y ddaear, ar y dŵr neu yn yr awyr.

## Atodiad C: Mannau Perthnasol

1. Mae'r canlynol yn fannau perthnasol at ddibenion y Cynllun hwn:
  - (a) awyren Brydeinig o fewn i ystyr adran 92 o'r Deddf Hedfan Sifil 1982 (cymhwysu'r gyfraith droseddol i awyrennau), neu un o awyrennau Ei Mawrhydi;
  - (b) hofrenfad Prydeinig o fewn i ystyr adran 92 o'r Deddf Hedfan Sifil 1982 (cymhwysu'r gyfraith droseddol i hofrenfadau), neu un o hofrenfadau Ei Mawrhydi;
  - (c) un o longau Ei Mawrhydi neu unrhyw long a ddefnyddir i fordwoyo ac sy'n eiddo'n gyfan gwbl i bersonau o'r disgrifiadau canlynol:
    - (i) Dinasyddion Prydeinig; neu;
    - (ii) gyrff corfforaethol wedi'u hymgorffori o fewn y ddeddf neu ran ohoni ac sydd â'u prif fan busnes yn y Deyrnas Unedig; neu
    - (iii) bartneriaethau Albanaid.
  - (ch) ar, o dan neu uwchben osodiad mewn parth ddynodedig o fewn ystyr adran 1(7) o'r Ddeddf yr Ysgafell Gyfandirol neu unrhyw ddyfroedd oddi mewn i 500 medr o osodiad o'r fath; neu
  - (d) oleudy oddi ar arfordir Prydain Fawr.
2. Nid yw paragraff 1 yn berthn asol mewn perthynas â digwyddiad a ddigwydd yng Ngogledd Iwerddon gan gynnwys y môr gyferbyn â neu'r ofod awyr uwchben Gogledd Iwerddon.
3. (1) Mae'r canlynol yn fannau perthnasol at ddibenion y Cynllun hwn, ymhle mae'r anaf y mae'r cais yn cyfeirio ato yn digwydd yn y fan honno o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir:
  - (a) anaf a geir gan swyddog y DU wrth weithredu oddi mewn i diriogaeth Ffrainc neu Wlad Belg o dan ddarpariaethau Gorchmynion 1993 a 1994; ac
  - (b) anaf a achosir gan swyddog y DU wrth weithredu felly oddi mewn i diriogaeth Ffrainc neu Wlad Belg, ac eithrio anaf i unrhyw berson nad yw'n ddinesydd y DU yn gweithredu.
- (2) At ddibenion y paragraff hwn, ystyr "Gorchmynion 1993 ac 1994" yw Gorchymyn Twannel y Sianel (Trefniadau Rhyngwladol 1993 (SI 1993/1813) a Gorchymyn Twannel y Sianel (Darpariaethau Amrywiol) 1994 (SI 1994/1405) ac mae gan y "swyddog" yr un ystyr â'r rhai yn y Gorchmynion hynny.

## Atodiad CH: Collfarnau heb Ddarfod

1. Mae'r Atodiad hwn yn gosod allan yr amgylchiadau pan atelir neu leiheir dyfarniad o dan y Cynllun hwn gan bod gan yr ymgeisydd a fyddai fel arall wedi derbyn dyfarniad gollfarnau heb ddarfod.
2. Nid yw paragraffau 3 i 6 yn berthnasol i gollfarn sydd wedi darfod. Mae i "collfarn" "achosion disgyblu y gwasanaethau" a "dedfryd" yr un ystyron ag o dan y Ddeddf Ail-sefydlu Troseddwyr 1974, a phenderfynir ph'run ai yw collfarn wedi darfod, neu a yw dedfryd wedi ei eithrio o ail-sefydlu yn unol â'r Ddeddf honno.
3. Ni wneir dyfarniad i ymgeisydd sydd, ar ddiwrnod ei gais, â dedfryd am drosedd a arweiniodd at:
  - (a) ddedfryd a eithriwyd o ail-sefydlu;
  - (b) ddedfryd o garchar;
  - (c) ddedfryd o gaethiwed gwasanaethol;
  - (ch)ei dynnu ymaith o wasanaeth Ei Mawrhydi
  - (d) orchymyn cymunedol;
  - (dd) orchymyn ail-sefydlu ieuencid; neu
  - (e) ddedfryd gyfwerth â dedfryd o dan is-baragraffau (a) i (dd) a orfodwyd o dan gyfraith Gogledd Iwerddon neu aelod wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, neu gyfryw ddedfryd a osodwyd yn gywir o dan gyfraith gwlad tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.
4. Atelir neu leiheir dyfarniad ymhle, ar ddiwrnod ei gais, yr oedd yr ymgeisydd â cholffarn am drosedd mewn perthynas â dedfryd y gorfodir dedfryd ar wahân i un a ddynodir ym mharagraph 3 oni bai bod rhesymau eithriadol am beidio â'i atal neu ei leihau.
5. Nid yw paragraff 4 yn berthnasol i gollfarn lle mae'r unig gosb a orfodwyd oedd un neu fwy o arnodiad, pwyntau cosb neu ddirwy o dan Atodlen 2 o'r Ddeddf Troseddwyr Traffig y Ffyrdd 1988.
6. Nid yw paragraffau 3 a 4 yn berthnasol mewn perthynas i ddedfryd o dan gyfraith gwlad tu allan i'r Deyrnas Unedig am ymddygiad ar ddyddiad y ddedfryd nad oedd yn drosedd o dan gyfraith unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig..
7. . Mae paragraffau 2 i 6 hefyd yn berthnasol i ymgesisydd sydd ar ôl dyddiad y cais ond cyn dyddiad ei benderfyniad terfynol yn cael eu gollfarnu o drosedd nad yw'n darfod yn syth.



8. Yn yr Atodiad hwn:

ystyr “**gorchymyn cymunedol**”:

- (a) gorchymyn ad-daliad cymunedol o dan adran 227A o'r Ddeddf Gweithdrefnau Troseddol (Yr Alban) 1995;
- (b) gorchymyn cymunedol o dan adran 17 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003;
- (c) gorchymyn gwasanaeth cymunedol o dan y Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006; neu
- (ch) unrhyw orchymyn o'r fath a fyddai, ar y dyddiad y gwneir y Cynllun hwn, sydd wedi ei ddisodli (pr'un ai'n uniongyrchol neu'n annuniongyrchol) gan orchymyn a nodir yn is-baragraff (a), (b) neu (c).

ystyr “**dedfryd o gaethiwed**” yw:

- (a) dedfryd o garchar;
- (b) dedfryd o gaethiwed mewn sefydliad troseddwr ifanc, neu, yn yr Alban, sefydliad i droseddwr ifanc;;
- (c) defryd o hyfforddiant mewn ysgol Borstal;
- (ch) dedfryd o gyfnod mewn dalfa i'r ifanc
- (d) dedfryd o hyfforddiant cywirol;
- (dd) dedfryd o gaethiwed o dan adran 205 neu 208 o'r Ddeddf Gweithdrefnau Troseddol (Yr Alban) 1995
- (e) dedfryd o gaethiwed o dan adran 91 o'r Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 neu adran 209 o'r Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006;
- (f) gorchymyn caethiwed ac hyfforddiant o dan adran 100 o'r Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 neu o dan adran 211 o'r Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006; neu;
- (ff) unrhyw ddedfryd o'r fath sydd, ar y dyddiad y gwneir y Cynllun hwn, wedi ei ddisodli (pr'un ai'n uniongyrchol neu'n annuniongyrchol) gan ddedfryd a nodir yn is-baragraff (dd), (e) neu (f).

Ystyr “**ei dynnu ymaith o wasanaeth Ei Mawrhydi**” yw dedfryd neu ddiswyddiad gyda gwarth o wasanaeth ei Mawrhydi, dedfryd o ddiswyddiad o wasanaeth Ei Mawrhydi neu dedfryd o ddiswyddo o'r lluoedd arfog ryddhau gyda chywilydd “;

Mae “**dedfryd o garchar**” yn cynnwys dedfryd o benydwasanaeth;

Ystyr “**dedfryd o gaethiwed gwasanaethol**” yw:

- (a) dedfryd o gaethiwed gwasanaethol (oddi mewn i'r ystyr a roddir yn adran 374 o'r Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006), neu ddedfryd o gaethiwed yn cyfateb i ddedfryd o'r fath, mewn perthynas â cholffarn mewn achos disgyblaeth gwasanaethol; neu
- (b) unrhyw ddedfryd o'r fath, sydd, ar y dyddiad y gwneir y Cynllun hwn, wedi ei ddisodli (pr'un ai'n uniongyrchol neu'n annuniongyrchol) gan ddedfryd a nodir yn is-baragraff (a).

Ystyr “**gorchymyn ail-sefydlu ieuenctid**” yw

- (a) gorchymyn ail-sefydlu ieuenctid o dan Ran 1 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008; neu
- (b) unrhyw orchymyn o'r fath, sydd, ar y dyddiad y gwneir y Cynllun hwn, wedi ei ddisodli (pr'un ai'n uniongyrchol neu'n annuniongyrchol) gan orchymyn ail-sefydlu ieuenctid.

**Atodiad D: Tariff anafiadau**

<b>Rhan A</b>	
<b>Lefelau o iawndal</b>	
<b>Lefel A1</b>	<b>£1,000</b>
<b>Lefel A2</b>	<b>£1,500</b>
<b>Lefel A3</b>	<b>£1,800</b>
<b>Lefel A4</b>	<b>£2,400</b>
<b>Lefel A5</b>	<b>£3,500</b>
<b>Lefel A6</b>	<b>£4,600</b>
<b>Lefel A7</b>	<b>£6,200</b>
<b>Lefel A8</b>	<b>£11,000</b>
<b>Lefel A9</b>	<b>£13,500</b>
<b>Lefel A10</b>	<b>£16,500</b>
<b>Lefel A11</b>	<b>£19,000</b>
<b>Lefel A12</b>	<b>£22,000</b>
<b>Lefel A13</b>	<b>£27,000</b>
<b>Lefel A14</b>	<b>£33,000</b>
<b>Lefel A15</b>	<b>£44,000</b>
<b>Lefel A16</b>	<b>£55,000</b>
<b>Lefel A17</b>	<b>£82,000</b>
<b>Lefel A18</b>	<b>£110,000</b>
<b>Lefel A19</b>	<b>£175,000</b>
<b>Lefel A20</b>	<b>£250,000</b>

<b>Rhan B</b>	
<b>Lefelau o iawndal</b>	
<b>Lefel B1</b>	<b>£1,000</b>
<b>Lefel B2</b>	<b>£1,500</b>
<b>Lefel B3</b>	<b>£2,000</b>
<b>Lefel B4</b>	<b>£3,300</b>
<b>Lefel B5</b>	<b>£4,400</b>
<b>Lefel B6</b>	<b>£5,500</b>
<b>Lefel B7</b>	<b>£6,600</b>
<b>Lefel B8</b>	<b>£8,200</b>
<b>Lefel B9</b>	<b>£11,000</b>
<b>Lefel B10</b>	<b>£13,500</b>
<b>Lefel B11</b>	<b>£16,500</b>
<b>Lefel B12</b>	<b>£22,000</b>
<b>Lefel B13</b>	<b>£27,000</b>
<b>Lefel B14</b>	<b>£33,000</b>
<b>Lefel B15</b>	<b>£44,000</b>

<b>MYNEGAI I DARIFF O ANAFIADAU RHAN A</b>		
		<b>Rhif Tudalen</b>
<b>CYFFREDINOL</b>		
	Llosgiadau: yn effeithio ar sawl rhan o'r corff, dros 25% o'r croen (cynhwysir llosgiadau eraill o dan rhannau unigol o'r corff)	43
	Parlys sylweddol (ac eithrio o ganlyniad i niwed meddyliol)	43
	Salwch neu gyflwr a gydnabyddir yn feddygol (ac eithrio mân anafiadau ac anafiadau meddyliol)	44
	Anafiadau meddyliol	44
	Niwed i'r nerf synhwyrdd ymylol	44
	Niwed i'r nerf weithredol na ddiogellwyd amdano fel arall	45
<b>Pen a Gwddf</b>		
	Llosgiadau	45
	Creithio	45
	Niwed i'r ymennydd	46
	Epilepsi – anabledd parhaol	47
	Clust	47
	Llygad	48
	Wyneb	49
	Gwddf	50
	Trwyn	50
	Penglog	50
	Dannedd	51
	Tafod	51
<b>Aelodau Uchaf</b>		
	Llosgiadau	51
	Creithio	51
	Braich	51
	Penelin	52
	Bys a Bawd	52
	Llaw	53
	Hwmerws (asgwrn y rhan uchaf o'r fraich)	54
	Radiws (asgwrn ym mlaen y fraich)	54

	Ysgwydd	54
	Niwed i un neu fwy o dendon, gewyn neu gartilag	55
	Wlna (asgwrn ym mlaen y fraich)	55
	Arddwrn	55
<b>Torso</b>		
	Llosgiadau	56
	Creithio	56
	Abdomen	56
	Cefn	57
	Brest	57
	Pont yr ysgwydd (trybedd yr ysgwydd)	57
	Cwtyn y cynffon (asgwrn cynffon)	57
	Genitalia	58
	Torllengig	58
	Aren	58
	Ysgyfaint	58
	Pancreas	58
	Pelfis	58
	Palfais (padell yr ysgwydd)	58
	Dueg	59
	Sternwm (asgwrn y frest)	59
<b>Aelodau isaf</b>		
	Llosgiadau	59
	Creithio	59
	Ffêr	59
	Ffemwr (asgwrn y glun)	59
	Ffibwla (asgwrn y goes isaf)	60
	Troed	60
	Sawdl	60
	Clun	61
	Pen-glin	61
	Coes	61
	Niwed i un neu fwy o dendon, gewyn neu gartilag	62
	Tibia (asgwrn y grimog)	62
	Bys troed	62

	<b>RHAN B</b>	
	Anaf angheuol	64
	Cam-drin corfforol o oedolion	64
	Cam-drin corfforol o blant	64
	Trosedd rhywiol lle mae'r dioddefwr yn unrhyw oed (os heb dderbyn iawndal yn barod pan oedd yn blentyn)	65
	Trosedd rhywiol lle mae'r dioddefwr yn blentyn (o dan 18 ar adeg, neu ddechrau'r drosedd) neu'n oedolyn ac oherwydd analluogrwydd meddyliol ddim yn gallu cydsynio	66
	Taliadau eraill – dyfarniadau ychwanegol lle mae beichiogrwydd neu haint oherwydd trosedd rhywiol yn uniongyrchol	67
